
# ‘Synau’r Deinosoriaid’

Cyfnod Sylfaen

Dychmygwch pa fath o sŵn fyddai deinosoriaid yn ei wneud wrth drin a thrafod esgyrn deinosoriaid real a chymryd rhan mewn stori fywiog, swnllyd am goedwig yn ystod oes y deinosoriaid.



## Amcanion dysgu

Dylai’r disgyblion:

- Ddeall y gall ffosilau ddatgelu llawer am ddeinosoriaid er eu bod wedi marw allan
- Sylweddoli bod deinosoriaid cigysol a llysieuol
- Dyfalu maint deinosoriaid (mewn perthynas â’u hunain wrth edrych ar esgyrn deinosoriaid a’u cymharu â’n hesgyrn ni).

## Cyswllt â’r cwricwlwm

Iaith, llenyddiaeth a chyfathrebu
Gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd
Datblygiad creadigol

## Syniadau ar gyfer y Dosbarth

Rhai awgrymiadau ar beth i’w drafod a’i wneud gyda’r dosbarth cyn ac wedi’r ymweliad.

## Cyn ymweld

Bydd edrych dros y cysyniadau canlynol o fudd, er y byddwn yn eu trafod yn y sesiwn:
Deall bod deinosoriaid wedi marw allan filiynau o flynyddoedd yn ôl
Bod rhai deinosriaid yn bwyta planhigion, a rhai yn bwyta cig
Dysgu enwau rhai deinosoriaid
Ymwybyddiaeth o ffosilau
Deall y cysyniad o mwy o faint na / llai o faint na

### Rhai geiriau fydd yn cael eu defnyddio yn ystod yr ymweliad:

Ffosil, marw allan, llysysydd, cigysydd, asgwrn cefn, sgerbwd

## Wedi ymweld

- Crëwch eich ffosil eich hun gan ddefnyddio plastr Paris a plastisin.
- Ewch ar helfa ffosilau (Llanilltud Fawr, traeth Penarth, Cwm Ogwr).
- Crëwch gynefin ar gyfer eich deinosariaid tegan. Edrychwch ar ffotograff o sut ydyn ni’n meddwl y byddai coedwig Jwrasig yn edrych. Esboniwch i’r disgyblion eu bod yn mynd i greu cynefin deinosoriaid ar gyfer eu deinosoriaid tegan. Trafodwch y deunyddiau fydd eu hangen. Helpwch y disgyblion i osod compost planhigion mewn hambwrdd a’i orchuddio â mwsogl. Gosodwch lwyni bychan yn y compost a gosod cerrig a deinosoriaid ar ben y cyfan.
- Darllenwch ‘Stone Girl, Bone Girl’ (hanes yr helwraig ffosilau Mary Anning o Lyme Regis).
- Roedd gan Apatosaurus ddannedd fel dannedd crib. Defnyddiwch frigyn â dail arno a’i gribo i ddangos sut y byddai Apatosaurus yn casglu bwyd. Esboniwch nad oedd gan ddeinosoriaid fochau i ddal eu bwyd, felly byddent yn ei lyncu’n gyfan.
- Gwnewch fasgiau deinosoriaid.

## Amlinelliad o’r Gweithdy

| Gweithgaredd | Disgrifiad | Amser |
|---|---|---|
| Gwaith cylch a thrafodaeth | Trin esgyrn deinosoriaid a ffosilau eraill a thrafod bell gall ffosilau eu dysgu i ni am ddeinosoriaid | 15 mun |
| Amser swnllyd | Dyfalu pa synau allai deinosoriaid gwahanol fod wedi eu gwneud drwy eu cymharu ag anifeiliaid heddiw. Ail-greu’r synau. | 20 mun |
| Stori: Darllen *Albie the Adventurer* | Stori ryngweithiol lle mae’r disgyblion yn darparu synau drwy ddefnyddio offerynnau cerddorol. | 15 mun |